Heritage Network



© St John's House Trust

# Sut daeth Tŷ 500 mlwydd oed yn Gartref i'r Dyfodol

Mae Tŷ Sant Ioan ar Newcastle Hill, ychydig funudau o orsaf Pen-y-bont ar Ogwr, yn gartref hanesyddol sydd wedi'i gadw'n hyfryd ac yn adrodd hanes bywyd lleol dros y canrifoedd. O'i wreiddiau Canoloesol i ddigwyddiadau cymunedol modern, mae'r Tŷ yn pontio rhwng ddoe a heddiw, gan groesawu ymwelwyr i ymchwilio treftadaeth, y celfyddydau ac addysg mewn amgylchedd unigryw.

Wedi'i ariannu gan:

- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol



*Ar draws y DU, mae pobl yn dod at ei gilydd i achub, adfer, ailddefnyddio a rheoli adeiladau a llefydd hanesyddol er budd eu cymunedau. Mae'r astudiaeth achos hon yn un o gyfres sy'n amlygu eu heffaith anhygoel.*

# Tŷ Sant Ioan

Lleoliad: *Newcastle Hill*

Ardal awdurdod lleol:
*Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*

Etholaeth Seneddol y DU: *Pen-y-bont ar Ogwr*
Etholaeth Senedd Cymru: *Pen-y-bont ar Ogwr*

**5,000+**
ymwelwyr (2011–23)

**2,000+**
dilynwyr cyfryngau cymdeithasol

**23**
ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr

Heddiw, mae Tŷ Sant Ioan yn ofod treftadaeth croesawgar a chynhwysol, ar agor i'r cyhoedd ddwywaith y mis ac yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ar draws y flwyddyn – o sesiynau adrodd storïau yng ngolau cannwyll i weithdai crefftau ac ymweliadau ysgol. Yn syml, ei genhadaeth yw: rhannu hanes haenog Pen-y-bont ar Ogwr a chreu gofod i'r gymuned ddod ynghyd, myfyrio a thyfu.

## O Berl Cuddiedig i Angor Diwylliannol

Mae'r tŷ bellach yn gonglfaen i ddigwyddiadau lleol, gan gynnal sesiynau adrodd storïau, arddangosfeydd creadigol, cyngherddau corawl, arwerthiannau planhigion a diwrnodau crefftau treftadaeth. Mae'n denu pobl i mewn i Ben-y-bont ar Ogwr ac yn cefnogi gwneuthurwyr lleol drwy ei siop a'i arddangosfeydd. Fel lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd i bawb, mae'n croesawu trigolion o bob oed – yn arbennig plant a theuluoedd ifanc – gan gynnig cyfleoedd ystyrlon i gysylltu gyda'u gorffennol, eu lle, a'i gilydd. Drwy gyfuno treftadaeth gyda gweithgareddau cymunedol, mae'r tŷ yn chwarae rhan hanfodol wrth gryfhau hunaniaeth leol a sicrhau bod yr adeilad yn parhau yn berthnasol, cynhwysol ac yn llawn defnydd heddiw.

## Pum Canrif o Hanes Hynod Ddiddorol

Yn dyddio'n ôl at o leiaf 1512, credir mai Tŷ Sant Ioan yw'r adeilad trigiadwy seciwlar hynaf ym Mhen-y-bont at Ogwr. Byddai'n cael ei adnabod un tro fel Monckley House neu 'yr Hosbis', gall ei darddiad fod o bererindod ganoloesol neu ddefnydd eglwysig. Dros y canrifoedd, mae wedi esblygu gyda'r dref – o gartref i fasnachwr i lety glowyr, o neuadd ambiwlans i hwb i'r gymuned. Drwy bob cyfnod, mae wedi parhau fel tyst parhaol i dirwedd gyfnewidiol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gorffori hanes haenog y dref a'i gysylltiad parhaus gyda'i gorffennol.

## Achub Tirnod rhag Dirywio

Er iddo unwaith fod dan fygythiad o gael ei ailddatblygu, mae Tŷ Sant Ioan bellach yn ganolfan dreftadaeth lwyddiannus, gaiff ei harwain gan wirfoddolwyr, yng nghanol y dref.
Pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 2011, roedd Tŷ Sant Ioan mewn perygl o gael ei droi yn fflatiau. Mae'r gwaith o'i achub a'i drawsnewid yn hwb diwylliannol yn adlewyrchu grym gweithredu ar lawr gwlad er mwyn adennill adeiladau hanesyddol – gan nid yn unig diogelu'r gorffennol ond ei ail-ddychmygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ers prynu'r tŷ yn 2023, mae ymdrechion cadwraeth parhaus – o adfer y ffenestri i gynlluniau hygyrchedd i'r dyfodol – yn parhau i ddiogelu cymeriad unigryw yr adeilad ar gyfer cenedlaethau i ddod.

## Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan

Mae Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan yn Sefydliad Corfforedig Elusennol, wedi'i sefydlu gan drigolion lleol sy'n ymrwymo i ddiogelu'r safle hanesyddol prin yma. Roedd modd ei brynu o ganlyniad i flynyddoedd o waith ymgyrchu cymunedol, cynllunio gofalus ac ymrwymiad gwirfoddolwyr ac mae'r adeilad bellach wedi'i ddiogelu yn barhaol. Gyda mynediad am ddim, tîm ymroddgar o wirfoddolwyr, ac ymrwymiad cadarn at fod yn gynhwysol, mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod Tŷ Sant Ioan yn parhau nid yn unig fel heneb yn hanes Pen-y-bont ar Ogwr, ond yn rhan fywiog a byw o'i phresennol – yn agored, croesawgar ac wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd stiwardiaeth gymunedol a mynediad i bawb.

## Am fwy o wybodaeth ewch i:

**www.stjohns-bridgend.org.uk**

www.heritagenetwork.org.uk

Heritage Network, 13–15 Fleet Street, Birmingham B3 1JP
Ariannwyd yr astudiaeth gan National Lottery Heritage Fund  a'i hysgrifennwyd gan Phoebe Shanley, Hyfforddai Heritage.
Elusen gofrestredig yn Lloegr: 1167662, a'r Alban: SC047537. Cwmni cofrestredig yn Lloegr: 09943640.